


# CARYS GLYN



## Beth yw dy gefndir a/neu beth ydych yn ei wneud ar hyn o byr!

Dw i wedi gwneud dipyn bach o bopeth, bod yn newyddiadurwr, ymchwilydd i brifysgol, gweithio mewn siop esgidiau...bod yn gogydd ar y deledu gyda Ainsley Harriot ( gyrfa byr!)

Erbyn hyn dw i'n athrawes yn Ysgol Gymraeg Y Fenni, lle rydw i'n lwcus iawn i fod yn dysgu plant bendigedig am bethau gwych fel cestyll a dreigiau!

Mis Hydref gaeth fy llyfr cyntaf **Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll** ei gyhoeddi gan Lolfa... breuddwyd wedi dod yn wir...

## Beth wnaeth dy ysbrydoli i ddechrau ysgrifennu llyfrau?

Sa i'n cofio amser pan nad oeddwn i eisiau ysgrifennu. Rwy wastad wedi caru odli a phan yn ifanc r'on i wastad yn hoffi ysgrifennu rhyw bennillion neu 'raps' bach syml. Bues i'n ddigon lwcus i ennill gytadlueaeth ysgrifennu Dydd Gwyl Dewi yn y 'Western Mail' pan o'n i'n 14 a rhoddodd hwnna hwb mawr i fi.

Mae fy mhen fel peiriant popcorn yn llawn syniadau ... rhai ohonyn nhw yn hollol wirion a rhai ohonyn nhw dw i'n trio datblygu.

## Pa lyfrau wnaeth ddylanwadu arnat fel darllenwr ifanc?

Roeddwn i wrth fy modd gyda Roald Dahl. Dw i'n cofio fy nhad yn darllen 'Boy' i fi cyn gwely rhyw dro a cocsio gwneud llais 'Mrs Pratchet' a fi'n rollo chwerthin.

Rwy hefyd yn dwlu ar lyfrau Alffi a Lili- Mei gan Shirley Hughes rwy cofio fy mam yn darllen nhw i fy chwaer fach a fi'n cael fy swyno'n llwyr gan y straeon a'r lluniau.

## Beth sy sy'n gwneud llyfr da?

Cymeriadau. I fi os nad oes cysylltiad rhwng y darllenwr ar cymeriadau – does dim llawer o bwynt darllen ymlaen.

Wrth gwrs mae angen y cymeriadau da a'r drwg ym mhob llyfr – a does dim byd gwell gen i na dihiryn i bawb gasau!

Hefyd, dw i'n dwlu ar lyfrau doniol a llyfrau sydd yn llawn lluniau!!

## Oes llyfr/prosiectau newydd ar y gorwel?

Mae llwyth o syniadau gen i ... ond mae troi'r syniadau yna yn waith gorffenedig yn dipyn o beth! Dw i wedi bod yn gweithio ar nofel Saesneg i blant 8-12 ers blynyddoedd

'The Fabulous League of Silver Spies: Operation What-a-Whiff'.Dw i'n benderfynol o'i gorffen cyn ddiwedd y flwyddyn.

## Beth yw dy llyfr diweddaraf i blant?

Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll yw fy llyfr diweddaraf ac mae'r darluniau gwych wedi creu gan y fendigedig Ruth Jen!

Yn y stori rydw i'n cyflwyno y darllenwyr i G- Hw, Eyr, Mal, Carwww a Chwim yr eog. Rhain yw Criw'r Coed ac anifeiliaid Hynaf y Byd. Maen nhw'n hen, hen gymeriadau o'r Mabinogi ond yn y stori hon maen nhw wedi dod yn ôl i ddatrys problemau anifeiliaid heddiw.

Yn y llyfr hwn, her y Criw yw i ddatrys dirgelwch y gwenyn coll. Mae hwn yn broblem go iawn yn ein byd ni heddiw – mae gwenyn yn diflannu yn gyflym achos rhesymau fel diffyg blodau gwyllt.

Roeddwn i eisiau i blant deall bod hyn yn broblem yn ein byd ni heddiw ond hefyd roeddwn i eisiau iddyn nhw sylweddoli eu bod nhw gallu helpu eu datrys trwy blannu blodau gwyllt.

Roeddwn i hefyd eisiau i blant ddeall pa MOR BWYSIG yw gwenyn – nid pethau i fod yn ofnus ohonynt – wedi'r cyfan heb wenyn byddai ein deiet yn edrych yn dra wahanol!

